

Red Meat Development Programme

Introducing seed to improve pasture



Why reseed?

- Improve yield and quality; ryegrass rich swards yield up to 14t/Dry Matter (DM)/ha/year, have Digestibility (D) values of 68-75, support good levels of liveweight gain and respond efficiently to N fertiliser.
- Provide clean grazing.
- For fertility building in a crop rotation.

When do I need to reseed?

- Below 30% ryegrass, a complete reseed is needed.
- At 50% ryegrass, renovation is often successful.
- Between 50 - 70% ryegrass, the sward composition can be improved by good grazing and silage management, and by alternating between grazing and cutting.
- When re-seeding land previously uncultivated refer to the Environmental Impact Assessment (EIA) (Agriculture) (Wales) Regulations 2007 to avoid damaging areas of special environmental, cultural or historical importance.

The Three Rs - Renovate, Rejuvenate or Reseed?

- Renovate - oversow by harrowing and broadcasting seed on the surface, or by slot seeding.
- Rejuvenate - correct soil indices of pH, P and K and allow more productive grasses to out-compete unsown species and become more dominant in the sward.
- Reseeding through ploughing and cultivation to create a good seed bed offers the best chance of success, but will take the land out of production for longer.

What to sow?

- To maximise production and quality under good fertile conditions, the mainstay grass component needs to

be perennial hybrid or Italian ryegrasses. There are no other grasses to match perennial ryegrass in terms of nutritional quality and yield.

- There are situations where inclusion of other species is valuable. For example cocksfoot for drier conditions and timothy for wet heavier land and both for soils with below average fertility.
- Base the selection on the 2011 Recommended Grass and Clover List which is available from HCC. This is the only source of independent information on all recommended varieties.
- Select mixtures suited for their intended use - a short term Italian ryegrass will not perform well under hard sheep grazing.
- Include clover to fix nitrogen and improve protein.

When should I reseed in the spring or autumn?

- Spring reseeds are often the most successful in low input or organic systems and provide overwinter grazing if needed.
- If summer/autumn reseeding, it is essential to get clover established well before winter which in uplands of Wales means early August or late August in the lowlands.

How do I guarantee that my reseed will succeed?

The overriding issue is getting the soil right. Make sure that the soil chemistry is at the correct indexes. Grassland needs a pH of 5.8-6.2 and P & K indexes at 2 and above. It is as important to check soil structure - however good the chemistry - the grass and clover will not grow well if there is compaction or poaching.

For general advice on grassland management refer to the HCC booklet and DVD on Grassland Management.

One to one technical advice is available from the Farm Advisory Service and through the Whole Farm Plan by calling the Farming Connect Service Centre on 08456 000 813.

The Red Meat Development Programme is delivered by Hybu Cig Cymru on behalf of Farming Connect.

July 2011



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhaglen Datblygu Cig Coch Defnyddio hadau i wella tir pori



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



Pam ail-hadu?

- Gwella cynnyrch ac ansawdd; bydd tir glas â chyfran uchel o rygwellt yn cynhyrchu hyd at 14t/Sylwedd Sych (DM)/ha/blwyddyn, â gwerthoedd Treuliadwyedd (D) o 68-75, yn hybu cynnydd pwysau byw ac yn ymateb yn effeithlon i wrtaith N.
- Darparu porfa lân.
- Meithrin ffrwythlondeb mewn cylchdro cnydau.

Pryd ddylwn i ail-hadu?

- Os oes llai na 30% o rygwellt, mae angen ail-hadu'n gyfan gwbl.
- Os oes 50% o rygwellt, bydd adnewyddu'r tir glas yn llwyddo'n aml.
- Os oes rhwng 50 - 70% o rygwellt, mae modd gwella'r tir glas wrth reoli'r pori a'r silwair yn dda, a thrwy bori a thorri bob yn ail.
- Wrth ail-hadu tir na chafodd ei drin o'r blaen, cyfeiriwch at Reoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2007 er mwyn atal niweidio ardaloedd o bwysigrwydd arbennig o ran yr amgylchedd, diwylliant neu hanes.

Y Tri 'A' - Adnewyddu, Adfywio neu Ail-hadu?

- Adnewyddu – tros-hadu wrth lyfnu a hadu hadau ar yr wyneb, neu wrth hadu mewn slotiau.
- Adfywio - cywiro'r lefelau pH, P&K yn y pridd a chaniatáu i'r glaswelltau mwyaf cynhyrchiol oresgyn rhywogaethau na chafodd eu hadu a'u hatal rhag ymledu yn y tir glas.
- Ail-hadu wrth aredig a thrin y tir er mwyn creu gwely da i'r hadau yw'r ffordd orau o lwyddo, ond bydd yn golygu y bydd y tir yn anghynhyrchiol am gyfnod hirach.

Beth ddylid ei hau?

- Er mwyn cael y cynnyrch a'r ansawdd gorau dan amodau ffrwythlon da, dylai'r glaswellt fod yn

rygwelltai hybrid parahol neu Eidalaid yn bennaf. Nid oes unrhyw laswelltau eraill i'w cymharu â rhygwellt parahol o ran ansawdd maethol a chynnyrch.

- Dan rai amgylchiadau mae'n werth cynnwys rhywogaethau eraill. Er enghraifft, Troed y Ceiliog ar dir sych a Timothy ar dir gwlyb a thrwm - a'r ddau os yw'r tir yn llai ffrwythlon na'r cyfartaledd.
- Seilio'r dewis ar restrau 2011 o Laswelltau a Meillion sy'n cael eu Hargymell ac sydd ar gael gan HCC. Dyma'r unig ffnhonnell o wybodaeth annibynnol ynglŷn â'r holl rywogaethau sy'n cael eu hargymell.
- Dewis cymysgeddau sy'n addas – ni fydd rhygwellt yr Eidal byrdymor yn perfformio'n dda os yw'n cael ei bori'n drwm gan ddefaid.
- Cynnwys meillion i fachu nitrogen a gwella protein.

Pryd ddylwn i ail-hadu – yn y gwanwyn neu'r hydref?

- Ail-hadu yn y gwanwyn sydd fwyaf llwyddiannus yn aml mewn systemau â mewnbwn isel neu systemau organig a dylid darparu pori ar gyfer gaeafu os oes angen.
- Os ail-hadu yn yr haf/hydref, rhaid cael y meillion i dyfu mewn da bryd cyn y gaeaf; mae hynny'n golygu ddechrau Awst ar dir uchel yng Nghymru a diwedd Awst ar lawr gwlad.

Sut ydw i'n gwneud yn siŵr y bydd yr ail-hadu yn llwyddo?

Rhaid cael y pridd yn iawn. Gwnewch yn siŵr fod mynegrifau cemeg y pridd yn gywir. Mae ar dir glas angen pH o 5.8-6.2, a mynegrifau P & K o 2- a throsodd. Yr un mor bwysig yw gwirio ffurfiant y pridd – waeth pa mor dda yw'r cemeg, ni fydd y glaswellt a'r meillion yn tyfu'n dda os yw'r tir yn cael ei gywasgu neu ei sathru.

I gael gwybodaeth gyffredinol am reoli tir glas, cyfeiriwch at lyfryn a DVD HCC ar Reoli Tir Glas.

Mae cyngor technegol un-i-un ar gael gan y Gwasanaeth Cyngori Ffermwyr a thrwy Gynllun y Fferm Gyfan wrth ffonio Canolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio ar 08456 000 813.

Mae'r Rhaglen Datblygu Cig Coch yn cael ei darparu gan Hybu Cig Cymru ar ran Cyswllt Ffermio.

Gorffennaf 2011



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu
Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi
mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for
Rural Development: Europe Investing in
Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government